OPSIYNAU TAI GWYNEDD

NEWIDIADAU I OSOD TAI CYMDEITHASOL

MAE'R FFORDD MAE TAI CYMDEITHASOL YNG NGWYNEDD YN CAEL EU GOSOD YN NEWID! BYDD SUSTEM BANDIO YN CYMRYD LLE'R SUSTEM BWYNTIAU AC ISOD CEWCH ATEBION I'R CWESTIYNAU A OFYNNIR YN AML.

Beth ydi sustem 'bandio'? Sustem sydd yn rhoi ceisiadau mewn band penodol sydd yn adlewyrchu'r angen am gartref. Bydd y bandiau'n adlewyrchu cysylltiad ymgeiswyr gyda Gwynedd gan gryfhau'r pwyslais ar gyfarch anghenion tai pobl leol.

Pam bod angen newid y drefn? Mae'r drefn bresennol yn seiliedig ar gynllun pwyntiau i asesu'r angen am gartref a gall ar brydiau fod yn gymhleth. Mae angen trefn haws i'w deall felly byddwn yn cyflwyno sustem 'bandio' yn ei le, a hynny yn dilyn adolygiad o'r Polisi Gosod Tai yn 2019.

Pa geisiadau fydd yn mynd i ba fand? Mae'n bwysig cydnabod cysylltiad ymgeiswyr gyda chymunedau, ond mae rhaid hefyd ddangos blaenoriaeth i rai sydd mewn angen tai.

Pwy fydd yn cael cynnig cartref? Bydd eiddo yn cael ei gynnig i'r ymgeisydd uchaf ym Mand 1 yn y lle cyntaf, gan weithio i lawr y band. Bydd ceisiadau o fewn band yn cael eu blaenoriaethu yn gyntaf i ymgeiswyr sydd gyda chysylltiad efo'r gymuned lle mae'r eiddo gwag, yn ôl dyddiad cais.

Beth fydd y newid yn ei olygu? Bydd rhai ceisiadau yn cael mwy o flaenoriaeth, gyda'r elfen cysylltiad lleol yn cryfhau.

Oes angen llenwi ffurflen gais newydd? Na. Ond efallai bydd angen gwirio manylion rhai ymgeiswyr, mi fyddwn yn cysylltu'n uniongyrchol â chi os oes angen.

Beth sy'n digwydd nesaf? Byddwn yn ysgrifennu at bawb ar y gofrestr yn egluro pa fand fydd eu cais ynddo cyn i'r newidiadau fod yn weithredol, gobeithio yn ystod mis Ebrill 2020. Cewch fwy o wybodaeth ar ein gwefan: www.gwynedd.llyw.cymru/taicymdeithasol

PARTNERIAETH COFRESTR TAI GYFFREDIN GWYNEDD